


peirianneg arloesol



# Adroddiad ESG

2022/23

JONES BROS
CIVIL ENGINEERING UK

# Neges gan y Cadeirydd




Mae gan Jones Bros Civil Engineering UK enw da dros ben am safon ein gwaith adeiladu. Ond yr un mor bwysig yw ein ffocws ar yr amgylchedd, ein gweithgareddau cymdeithasol a gofynion gweinyddu da.

Rwyf felly'n arbennig o falch fod y cwmni wedi cynhyrchu ei adroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant (Economic, Social and Governance - ESG) cyntaf.

Ers y dechrau un, buom yn cefnogi cymunedau lleol, gofalu dros yr amgylchedd a sicrhau fod ein busnes yn cwrdd â'r gofynion cydymffurfio a diogelwch.

Mae'n rhan gynhenid o'n DNA i wneud hynny ac rydym bob amser yn ymdrechu'n galed i gyfleu'r neges hwn tu fewn a thu allan i'r cwmni. Wrth gyhoeddi'r adroddiad ESG hwn, mae'n gyfle ychwanegol i daflu goleuni ar y pethau gwych sy'n digwydd ym mhob rhan o fusnes Jones Bros.

Mae ein timau bob amser yn llwyddo i ganfod ffyrdd newydd o godi'r bar – o leihau ein hôl troed carbon i ymgysylltu â grwpiau cymunedol, o fewn ac o amgylch ein safleoedd adeiladu.

Yn yr adroddiad hwn hefyd ceir portread o dri aelod o'n tîm, gan roi cipolwg ar fywyd fel aelod o staff Jones Bros a'u rhan bwysig yn ein gwaith ESG.

Mae ymrwymiad i'r agweddau yma wedi bod yn rhan annatod o'n ffordd o weithio ers pum deg mlynedd, a'n nod yw parhau i arwain y ffordd o fewn ein diwydiant a'r byd busnes ehangach.

**Huw Jones MBE**
**Cadeirydd**

# Ymrwymiad hanesyddol Jones Bros i ESG – mae wrth galon pob dim a wnawn

Rydym bob amser yn parchu'r amgylchedd, y bobl a'r cymunedau lle byddwn yn gweithio, a gwnawn hynny heb gyfaddawdu mewn unrhyw ffordd ar ansawdd ein gwaith.

Rhan hanfodol o bob un o'n prosiectau yw cyfathrebu gyda phreswylwyr ac adeiladu perthynas dda gyda rhanddeiliaid allweddol gerllaw ein safleoedd gwaith.

Ers dros 50 mlynedd rydym wedi ceisio ymgysylltu â chymunedau mewn ffyrdd creadigol, a llawn dychymyg.

Yn 2022, er enghraifft, fe wnaethom noddi ap yn dangos arddangosfa rithiol celf dylunio a thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cafodd ei lawrlwytho gan dros 40,000 o bobl i weld cynnwys yr ganolfan gelf a chrefft, y cystadlaethau a'r canlyniadau.

Rydym hefyd wedi cefnogi achosion da elusennol dros y blynyddoedd, yn cynnwys Tŷ Gobaith, Hosbis St Kentigern, Ambiwlans Awyr Cymru, Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru a llawer o sefydliadau ieuenctid a chymunedol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Rydym wedi cefnogi chwaraeon pobl ifanc trwy gynnig nawdd, prynu citiau chwaraeon a chyfrannu at ymgyrch godi arian i ddatblygu cae chwarae 3G bob tywydd.

Yn ogystal â meithrin cysylltiadau cryf â chymunedau lleol, mae gennym hefyd record ardderchog o agor drysau at addysg a hyfforddiant.

Mae ein cynllun prentisiaeth nid yn unig wedi ennill gwobrau am ei ragoriaeth, ond hefyd wedi cynhyrchu bron i 50% o'n gweithlu presennol, gyda llawer o'n uwch reolwyr wedi dechrau gyda'r cwmni fel prentisiaid neu mewn swyddi dan hyfforddiant.

Lle bynnag y byddwn yn gweithio, rydym yn cyflogi a hyfforddi pobl leol. Enghreifftiau arbennig o dda yw cynllun adeiladu Fferm Wynt Pen y Cymoedd yn Ne Cymru a gwaith ymestyn Fferm Wynt Clyde yn yr Alban.

Rydym yn falch o'n treftadaeth ac mae nifer dda o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf o fewn y cwmni. Fel y dywed ein Polisi Iaith Gymraeg, mae gennym weithle dwyieithog lle defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae unrhyw un sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg yn cael ei gefnogi a'i annog i wneud hynny gan ei gydweithwyr.

Ni fyddwn byth yn cyfaddawdu wrth gadw staff a'r cyhoedd yn ddiogel, fel y tystia'r ffaith ein bod wedi ennill gwobr aur y Gymdeithas Frenhinol Atal Damweiniau (RoSPA) am 15 mlynedd yn olynol.





# Amgylcheddol

Mae cwmni Jones Bros yn ymwybodol iawn o'i ddyletswyddau carbon, ac mae ganddo strategaeth gynhwysfawr i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a defnyddio adnoddau cynaliadwy.

Y nod yw ysgafnhau ein hôl troed carbon a lleihau cymaint â phosibl ar ein heffaith ar yr amgylchedd, beth bynnag yw maint neu natur y prosiect.

Rydym drwy'r amser yn cadw golwg ar faterion fel defnydd ynni, gwastraff a llygredd a rhoddwn sylw gofalus i fioamrywiaeth o amgylch ein cynlluniau gwaith.

Ac rydym hefyd yn adolygu'n rheolaidd ein system rheoli Iechyd, Diogelwch, Amgylchedd ac Ynni (Health, Safety, Environmental and Energy - HSEE), yn cynnwys ein trefniadau gweinyddu, polisïau, gweithdrefnau ac arferion gwaith.

## Allyriadau Carbon

Rydym yn paratoi ar gyfer y dyfodol trwy ddilyn llwybr clir i leihau ein allyriadau $CO_2$ o flwyddyn i flwyddyn. Credwn yn gryf mewn amddiffyn ein plant a chenedlaethau'r dyfodol rhag yr argyfwng hinsawdd presennol.

Mae gennym hefyd gynllun lleihau carbon sy'n dangos sut y bydd ein allyriadau carbon yn cyrraedd sero net erbyn 2050.

Mae'r cynllun hwn yn gosod targedau ar gyfer y chwech cyfnod pum mlynedd o 2019/20 i 2050.

Mae ein targedau yn cynnwys y canlynol:

- Gostyngiad o 25% yn ein Mynegai Perfformiad Ynni (Energy Performance Index - EnPI) o $tCO_2e$ am bob £1 miliwn o drosiant erbyn 2024-25 o gymharu â blwyddyn llinell sylfaen 2019-2020

- Mae gostyngiad tymor byr o 2% mewn EnPI o $tCO_2e$ am bob £1 miliwn o drosiant, yn erbyn y flwyddyn flaenorol yn ffurfio rhan o'r targedau ac amcanion ISO50001

Mae monitro ein EnPI yn ein galluogi i edrych yn drwyadl ar effaith cynlluniau newydd a sicrhau ein bod yn gweithredu ac adrodd ar ein perfformiad yn unol â gofynion y Streamlined Energy and Carbon Regulations - SECR.

Fel rhan o'n ymgais i leihau ein hallyriadau carbon, cyflwynwyd newidiadau pwysig yn y 12 mis diwethaf, er enghraifft:

- Buddsoddi mewn fflyd o geir trydan, lleihau ein defnydd o danwydd ffosil ac arbed mwy na 1,500 litr o danwydd

- Cyflwyno generaduron solar a hybrid gan arbed mwy na 2,000 tunnell o allyriadau carbon

Arweiniodd y mesurau amgylcheddol hyn at dderbyn canmoliaeth uchel yng Ngwobrau Iechyd a Diogelwch y Building Safety Group (BSG).

Hefyd, mae gennym gynllun teithio gwyrdd sy'n annog y gweithwyr ar ein prosiectau i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy. Fe'i gweithredir cyn dechrau gweithio ar unrhyw safle newydd gan annog rhannu ceir, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a beicio i'r safle.

Er mwyn lleihau ein allyriadau carbon ymhellach, rydym wedi cyflwyno pencampwyr ynni (energy champions) yn ein swyddfeydd parhaol a'n safleoedd mwy.



## Sylw i'r prosiectau

Yn ogystal â gwella amserau teithio a lleihau tagfeydd roedd cynaliadwyaeth (sustainability) yn ystyriaeth bwysig wrth adeiladu prosiect £135m Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd.

Trwy ddefnyddio llwybrau teithio o fewn y safle adeiladu ei hun, arbedwyd 4,100 tunnell o $CO_2$ ac osgoi'r angen am 1.7 miliwn milltir o deithio ar ffyrdd cyhoeddus.

Hefyd, cafwyd gwared o ddeunydd dros ben yn Chwarel Seiont gan osgoi'r angen i gludo 600,000 tunnell o ddeunydd i safleoedd tirlenwi allanol.

Wrth adeiladu'r ffordd roeddem yn benderfynol o leihau effaith amgylcheddol y cynllun cyn gymaint â phosibl a buom yn gweithio'n galed i gyfoethogi a gwella bioamrywiaeth yr ardal.

Roedd hyn yn cynnwys cwrdd â gofynion Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, trwy weithredu mesurau fel gwarchod coed a chynefinoedd, coedlannau a gwrychoedd, creu glaswelltir blodau gwyllt, darparu blychau i ystlumod ac adar, creu llwybrau teithio a ffensiau tywys i fywyd gwyllt a gosod goleuadau ecolegol sensitif.

Roedd y mesurau amgylcheddol eraill yn cynnwys:

- Rhoi pridd ar gyfer gwelyau blodau mewn pentrefi lleol ynghyd â phridd wyneb a phren ailddefnydd i ysgolion yr ardal fedru adeiladu tai gwydr eco gyfeillgar
- Cyflwyno gatiau newydd i Ysgol Gynradd Felinwnda
- Benthyg goleuadau solar i Glwb Pêl Droed Caernarfon
- Creu llwybr teithio llesol (active travel) newydd, yn ogystal â'r gallu i ychwanegu rhagor ohonynt yn y dyfodol
- Cyflwyno croesfannau newydd a gwell arwyddion i annog mwy o gerdded diogel

Derbyniodd y cynllun y gwobrau pwysig canlynol yn 2022:

- Tlws George Gibby yng Ngwobrau Sefydliad y Peirianwyr Sifil, ICE Wales Cymru
- Anrhydedd Prosiect Amgylcheddol/Cynaliadwy y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Sefydliad Priffyrdd a Thrafnidiaeth, CIHT Cymru Wales



## Sylw i'r prosiectau

Buom yn adeiladu cynllun £5.7 miliwn i greu platfformau ar y tir ar gyfer cyfnewidfa (converter station) Fferm Wynt ar y Môr Sofia a Dogger Bank C, sef trydydd cyfnod datblygiad Fferm Wynt Dogger Bank. Wrth wneud y gwaith llwyddwyd i:

- Arbed dros 1,000 o allyriadau $CO_2$ yn y chwe mis cyntaf trwy fuddsoddi mewn generaduron hybrid i leihau'r angen i ddefnyddio tanwydd diesel
- Defnyddio dau 'X45 site grid batter banks' a dau generadur 60kVA i ddarparu pŵer i'r cabanau, gan ostwng 42% ar y $CO_2$ gynhyrchwyd, a lleihau 17% ar y gost
- Rhannu deunyddiau dros ben gyda chontractwyr eraill – deunyddiau a brynwyd o fewn marchnad y Deyrnas Unedig gan gefnogi cyflenwyr lleol

## COP26

Yng Nghynhadledd COP26 daeth arweinwyr o bob rhan o'r byd at ei gilydd yn Glasgow i gyflymu'r broses o weithredu nodau Cytundeb Paris a Fframwaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd.

Gwahoddwyd ein cyfarwyddwr contractau, Garod Evans, i siarad yno mewn fforwm a drefnwyd gan Renewable UK ac Energy UK.

Eglurodd Garod sut y mae prosiect Fferm Wynt Dogger Bank yn helpu i dyfu economi rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr a thu hwnt.

Mae cynllun £62.9m Fferm Wynt A a B Dogger Bank yn brosiect seilwaith (infrastructure) a gosod ceblau dros ddau gyfnod o adeiladu'r fferm wynt ar y môr.

Wrth weithio ar y fferm wynt hon, a fydd yn un o'r rhai mwyaf yn y byd, fe ddaru Jones Bros hyfforddi 40 prentis a fydd yn medru trosglwyddo eu sgiliau i gynlluniau adnewyddadwy eraill yn y dyfodol.

# Cymdeithasol

Mae Jones Bros yn credu'n gryf mewn gwerthoedd cymdeithasol a chynnig profiadau cadarnhaol i bawb. Boed yn berthynas â staff, hyrwyddo amrywiaeth, amodau gwaith teg, cefnogi cymunedau lleol, sicrhau iechyd a diogelwch, neu ddelio â gwrthdaro, mae gennym record dda, ac rydym bob amser yn ceisio gwella ein perfformiad.

## Gyrfaoedd

Ein nod yw gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o dalentau, sgiliau a galluoedd yn ogystal â helpu pob aelod o staff i gyfrannu hyd eithaf eu talent.

Mae hyn yn cynnwys adran sy'n canolbwyntio ar gynlluniau hyfforddi a datblygu. I'r pwrpas hwn rydym wedi buddsoddi mewn canolfan sy'n cynnig hyfforddiant cydnabyddedig Construction Industry Training Board (CITB) yn Ninbych, Gogledd Cymru.

Mae ein ffocws ar bobl ifanc o bob math: yn brentisiaid, hyfforddeion a graddedigion, gyda mwy na 100 wedi elwa o'r ddarpariaeth hon yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Tri deg chwech o raddedigion a phrentisiaid yn cael eu cyflogi a'u hyfforddi ar gynllun Ffordd Osgoi Caernarfon a'r Bontnewydd, a phrofiad gwaith i 15 o bobl eraill yn ogystal. Roedd mwy na 91% o'r gweithlu'n dod o Ogledd Cymru a31% yn byw o fewn radiws 10 milltir

- Deg prentis a dau berson lleol ar leoliad gwaith yn parhau gyda'u haddysg ar waith paratoadol Dogger Bank C a Sofia

- Chwe lleoliad gwaith (work placement), yn cynnwys un lleoliad diwydiannol blwyddyn gyfan yn ein prif swyddfa yn Rhuthun l le bu dau o bobl yn gweithio o fewn y tîm dylunio ac adeiladu. Ymunodd un arall â phrosiect ynni morol Morlais

Yn rheolaidd, mae Jones Bros yn cynnal neu fynychu digwyddiadau gyrfaol a dyddiau agored gan wahodd ymwelwyr a myfyrwyr o ysgolion, colegau a chymunedau lleol.

Er enghraifft, agorwyd drysau ein canolfan hyfforddi yn Ninbych i gynnig diwrnod blasu'r profiad o fod yn brentis gyrru peiriannau.

Mynychodd y rheolydd ansawdd, Rayhanneh Saboonpaz, ddigwyddiad Merched yn y Maes Adeiladu a Pheirianneg yn Wrecsam yn dwyn sylw 75 merch o wyth ysgol at y cyfleoedd sydd ar gael i ferched yn y maes peirianneg sifil.

Rydym hefyd wedi arwyddo'r Cyfamod Lluoedd Arfog (Armed Forces Covenant). Cyflwynwyd hyn gan Tony Murphy, ein pennaeth Adnoddau Dynol a Systemau Rheoli Busnes, a dreuliodd 22 mlynedd yn y fyddin.





## Cymunedol

Mae creu cysylltiadau cymunedol cryf yn rhan annatod o'n ethos fel busnes teuluol. Ceisiwn gefnogi ymgyrchoedd, elusennau a sefydliadau lleol.

Ymhlith y gefnogaeth amrywiol a roesom, y mae:

- Cyd-gomisiynu opera gymunedol o'r enw 'Gelert' yng Ngwyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru yn Llanelwy
- Codi mwy na £2,500 i Tŷ Gobaith - Hope House i gefnogi eu hymgyrch 'Yr Oriau Gwerthfawr Olaf - Final Moments Matter'
- Rhodd tuag at offer i ystafell synhwyrau i Leonard Cheshire Disability ym Mae Colwyn
- Noddi cit nifer o glybiau chwaraeon

Mae ymwneud â'r gymuned leol yn rhan allweddol o bob un o'n cynlluniau. Er enghraifft, yn achos cynllun King's Dyke Crossing ger Peterborough yn Swydd Caergrawnt.

- Dosbarthwyd newyddlen yn dweud wrth y gymuned beth oedd yn digwydd ac roedd swyddog cyswllt â'r cyhoedd wrth law i siarad â thirfeddianwyr, preswylwyr, busnesau a defnyddwyr ffyrdd lleol
- Cafodd cist amser ei llenwi gydag atgofion ar ffurf cardiau post, llythyrau, lluniau a thoriadau papur newydd, yn ogystal a nwyddau cysylltiedig â'r pandemig COVID 19, yn cynnwys masg wyneb a cit prawf llif unffordd (lateral flow test)
- Derbyniodd y Whittlesey Heritage Walk £2,000 tuag at gost gosod byrddau gwybodaeth a meinciau
- Rhoddwyd £1,000 i ganolfan dreftadaeth y dref farchnad ger Gwarchodfa Natur Kings Dyke tuag at y gost o'i thrawsnewid
- Mae Whittlesey ar fin bod y dref gyda'r nifer uchaf o ddiffibriliwyr (defibrillators) am bob person yn y wlad pan fydd Jones Bros yn trosglwyddo'r ddyfais sy'n cael ei storio ar hyn o bryd yn King's Dyke

Mewn mannau eraill, cyflwynwyd rhodd o £2,000 tuag at waith adfer yr hen graen rheilffordd yng Nghanolfan Grefft Rhuthun. Buom yn helpu i glirio'r safle a adawyd wedi cau'r orsaf a'r iard fwy na hanner can mlynedd yn ôl.

Buom hefyd yn gweithio ar brosiect partneriaethol ar Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych. Cafodd y cynllun £4.2 miliwn ei osod ar y rhestr fer ar gyfer dwy anrhydedd yng Ngwobrau Peirianneg Sifil (ICE) Wales Cymru Awards, a chawsom wobr am ein hymwneud â'r gymuned.



# Llywodraethiant

Mae enw da pob cwmni'n deillio o'r ffordd y mae'n cynnal ei hun. Ceisiwn sicrhau fod ein gweithredoedd, a gweithredoedd y rhai sy'n gweithio inni neu gyda ni, oll yn cyd-fynd â'n hegwyddorion.

O ddydd i ddydd ceisiwn wneud pethau'n iawn, ac mae iechyd a diogelwch yn un o'n gwerthoedd pwysicaf.

## RoSPA/Iechyd a Diogelwch

Mae cwrdd â'r safonau iechyd a diogelwch uchaf yn allweddol inni fel cwmni.

Llwyddwyd i gyrraedd safon aur y Gymdeithas Frenhinol Atal Damweiniau (RoSPA) am y 15fed blwyddyn yn olynol.

Oherwydd inni wneud hynny am 15 mlynedd yn olynol fe'n anrhydeddwyd hefyd gyda gwobr arbennig - y RoSPA Order of Distinction.

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o wella ein harferion gwaith, yn cynnwys dyfeisio rhaglen o'r enw 'Diogelach gyda'n Gilydd - Together Safer' ar gyfer newid diwylliant mewn perthynas ag ymddwyn yn ddiogel.

Credwn yn gryf mewn hyrwyddo diwylliant o dderbyn, dim stigma a siarad yn agored am faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

Rydym yn falch o noddi Mates in Mind (MIM), sy'n darparu adnoddau inni eu rhannu gyda'n staff er mwyn hyrwyddo iechyd meddwl da ac annog pobl i siarad am y pwnc yma.





## Digwyddiad Colli Amser (Lost Time Incident - LTI)

Trwy lynu at y safonau uchaf, mae rhai o’n prosiectau wedi dathlu cerrig milltir pwysig.

Gweithiwyd 500,000 awr, neu 500 diwrnod, ar safle Cynllun Ffordd Osgoi Caernarfon a’r Bontnewydd heb unrhyw Ddigwyddiad Colli Amser (LTI).

Y diffiniad o ‘LTI’ yw anaf sy’n cael ei ddioddef gan aelod o staff, a hynny’n arwain at golli amser gweithio cynhyrchiol am nad yw’r gweithiwr yn medru gwneud ei dasgau arferol oherwydd y ddamwain.

Un o hanfodion osgoi LTI, a meithrin y diwylliant cywir mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch, yw rhoi’r hawl ac anogaeth i bob aelod o staff fynegi pryder.

Derbyniodd ein tîm gweithredu gyngor cadarn gan staff yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), yn cynnwys gwneud y pethau canlynol:

- Adolygu dogfennau
- Mynd o amgylch y safle ac archwilio’n ddyddiol
- Cynnig hyfforddiant a mentora i bawb
- Cynnal cyfarfodydd a hyfforddiant HSE
- Cynnal cyfarfodydd ymgynghori â’r gweithlu
- Rhoi dyletswyddau perthnasol i aelodau staff, yn cynnwys cymorth cyntaf, marsialiaid tân, iechyd meddwl, hyfforddiant ymddwyn yn ddiogel, a chydymffurfio â gofynion COVID-19

We also reached 500,000 hours without recording a single LTI as part of our work at Dogger Bank Wind Farm, the world’s largest offshore wind farm.

## COVID-19

Mae iechyd, diogelwch a lles ein staff, contractwyr, cleientiaid, ymwelwyr a’n holl randdeiliaid yn bwysig dros ben a rhoddwn y sylw dyledus i’r agwedd bwysig hon ar ein gwaith.

Yn ystod y cyfnod COVID-19, er enghraifft, cynhaliwyd asesiad risg COVID-19 ac addasu a diweddaru rheolau ein safleoedd fel bod pob man gwaith yn dilyn gofynion y cwmni a’r rhagofalon lleol. Llwyddwyd i leihau a rheoli bygythiad y pandemig.

Pan oedd y cyfyngiadau’n weithredol, fe wnaethom drafod a rhannu ein polisïau COVID-19 gyda phawb cysylltiedig â’n gweithgareddau ac roedd llinell ‘boeth’ (hotline) ar gael i ddelio’n gyflym ag unrhyw bethau a fyddai’n codi’n ddirybudd.

Fel rhan o’n trefniadau cydymffurfio, roedd gennym raglen archwiliadau pandemig ar gyfer pob safle i wneud yn siŵr ein bod yn cwrdd â’r safonau disgwyliedig drwy’r amser.

# Proffiliau Staff

## Rayhanneh Saboonpaz

**(Rheolydd Ansawdd)**

Mae gwaith Rayhanneh yn sicr yn amrywiol iawn ac yn ymwneud â phob agwedd o faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant (ESG).

Yn 2022, rhoddodd Rayhanneh sgwrs am ei gwaith gyda Jones Bros fel rhan o gynhadledd Merched mewn Adeiladu a Pheirianneg yng Ngholeg Cambria, Wrecsam.

Daeth tua 75 o ferched o wyth ysgol i'r digwyddiad a gynhaliwyd ar safle Ffordd Bersham y coleg. Ac yno, roedd rhai o enwau mwyaf blaenllaw y maes adeiladu a pheirianneg.

Meddai Rayhanneh: *"Roedd yn braf medru siarad â thua 30 i 40 o ferched ifanc efo diddordeb mawr yn y maes adeiladu a pheirianneg.*

*"Cefais gyfle i sôn wrthynt am y cyfleoedd sydd ar gael o fewn y diwydiant a thrafod unrhyw gamsyniadau a allai fod ganddynt ynghylch gweithio mewn sector lle mae'r gwaith yn llawer mwy na thyllu gyda chaib a rhaw.*

*"Mae sgiliau ar waith nad ydynt bob amser yn amlwg wrth ichi gerdded heibio safle adeiladu ac roedd yn gyfle gwerthfawr i ddwyn sylw atynt yn y gynhadledd hon.*

*"Dywedodd un ferch wrthyf ei bod eisiau gwneud rhywbeth yn y maes celf a dylunio, ac mae digonedd o swyddi yn y diwydiant adeiladu sydd angen y sgiliau hynny."*



## Casey Parry

**(Cynorthwy-ydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd)**

Mae Casey'n rhoi cefnogaeth weinyddol a thechnegol i Mike Jolley - uwch reolydd iechyd, diogelwch a'r amgylchedd - a hefyd i'r tîm ehangach.

O ddydd i ddydd mae'n helpu i reoli, monitro a chynnal holl safonau rhyngwladol yr International Organisation for Standardisation (ISO), yn cynnwys cefnogi pencampwyr ISO y busnes.

Mae angen cydweithio gyda rheolwyr safle a staff eraill er mwyn gwneud yn siŵr fod cynlluniau gweithredu, archwiliadau ac ymholiadau'n cael eu cofnodi'n gywir a'u cwblhau'n briodol.

Rhan arall o waith Casey yw llunio a chyhoeddi adroddiadau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol (HSE), paratoi gwybodaeth i staff, adolygu dogfennau safle, diweddaru a chynnal y gofrestr gyfreithiol, ymchwilio i ddigwyddiadau, cynnal archwiliadau/awditau a chadw cofnodion iechyd galwedigaethol.

Fel rhan o'i gwaith amrywiol, mae Casey'n cefnogi'r busnes drwy ymchwilio i ddigwyddiadau, cofrestru safleoedd gyda'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol (Considerate Constructors Scheme), mewnbynnu data ar gyfer tendrau, llenwi holiaduron cyn-gymhwyso, a pharatoi ceisiadau am wobrau a chynlluniau achredu.

Meddai: *"Mae'n wych cael chwarae rhan bwysig yn gofalu fod Jones Bros yn rhoi sylw priodol i faterion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.*

*"Yn fy ngwaith deuaf ar draws llawer o heriau diddorol, ond rwy'n falch o fedru helpu i sicrhau fod y cwmni bob amser yn gweithredu mewn ffordd ddiogel."*

## Sam Higgitt

**(Rheolydd Amgylchedd)**

Mae Sam yn rheolydd amgylchedd profiadol dros ben sy'n arbenigo mewn rheoli gwastraff, rheoli adnoddau dŵr ac ymateb i ddigwyddiadau.


Yn ystod ei wythnos waith, mae'n helpu i gydlynu holl agweddau amgylcheddol gwaith y cwmni, yn cynnwys cynnal archwiliadau a pharatoi adroddiadau.

Gyda 15 mlynedd o brofiad, mae Sam yn gweithredu fel tyst arbenigol mewn ymchwiliadau cyhoeddus ac yn cyflwyno tystiolaeth yn ystod gwrandawiadau.

Meddai: *"Mae canfod cydbwysedd rhwng anghenion yr amgylchedd a gofynion penodol y prosiect dan sylw yn aml yn heriol, ond yn dasg sy'n rhoi boddhad mawr.*

*"Mae'n wych dros ben gallu cwblhau cynllun heb niweidio'r amgylchedd, a gwneud newidiadau er gwell mewn llawer o achosion.*

*"Mae Jones Bros yn gwmni gyda ffocws pendant ar warchod yr amgylchedd ym mhob un o'i gynlluniau. Nid ydym byth yn cymryd unrhyw beth yn ganiataol o'r adeg dechrau cynllunio i gyfnod gorffen y gwaith."*









# Wyddech chi?

## Dyma rai ffeithiau a ffigyrau trawiadol ynglŷn â'n prosiectau a'n hymrwymiad i wella'n barhaus.

**Fel cwmni, rydym wedi:**

- Cyflogi dros 100 o brentisiaid dros y tair blynedd diwethaf
- Rhoi tua £40,000 yn 2022 i elusennau, gwahanol glybiau chwaraeon a'r celfyddydau, yn cynnwys Hosbis Tŷ Gobaith a Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru
- Dileu 90% o allyriadau CO2 ein peiriannau trwm mewn safle tirlenwi yn Calvert
- Buddsoddi mewn fflyd o gerbydau trydan, gan leihau'r defnydd o danwydd ffosil ac arbed mwy na 1,500 litr o betrol a diesel
- Cyflwyno generaduron solar a hybrid gan arbed mwy na 2,000 tunnell o allyriadau carbon
- Gosod system 10KW ychwanegol yn ein prif swyddfa i gynyddu'n gallu i gynhyrchu ynni solar

**Yng nghynllun £135m Ffordd Osgoi Caernarfon a'r Bontnewydd fe wnaethom:**

- Osgoi 200,000 o deithiau ar ffyrdd cyhoeddus
- Ailddefnyddio 700,000 tunnell o greigiau a phridd a gloddiwyd o fewn safle'r gwaith
- Arbed yr angen i waredu 600,000 tunnell o ddeunydd dros ben
- Plannu tua 170,000 o blanhigion
- Ymgysylltu â 341 o blant ysgol cynradd o 10 o ysgolion gwahanol
- Casglu £19,373 mewn prosiectau codi arian

**Yng nghynllun £32m Croesfan King's Dyke fe wnaethom:**

- Ddathlu mwy na 170,000 awr heb gofnodi unrhyw Ddigwyddiad Colli Amser (LTI)
- Creu gwefan benodol ar gyfer y safle, yn cynnwys delweddau cyfrifiadurol i ddangos y gwaith
- Defnyddio technoleg arloesol GPS ar beiriannau er mwyn gweithio'n fwy effeithlon a lleihau perygl damweiniau
- Recriwtio dau berson lleol, gyda chwech arall yn treulio mwy na chwe mis yr un ar y prosiect
- Gwario mwy na £6.5 miliwn yn lleol

**Yng nghynlluniau Dogger Bank a Sofia fe wnaethom:**

- Hyfforddi pum prentis a gwblhaodd flwyddyn gyntaf eu Diploma Genedlaethol Uwch (HND) yn llwyddiannus tra'n gweithio ar y prosiect
- Cyflogi 35% o'r tîm rheoli o fewn radiws 60 milltir i leoliad y prosiect
- Cyflogi hyd at 40 o weithwyr o'r ardal leol, gyda nifer arwyddocaol yn cael cynnig a derbyn swyddi parhaol

Jones Bros Civil Engineering UK, Ty Glyn, Canol y Dre, Ruthin, Denbighshire LL15 1QW

01824 703 661 jonesbrosUK @jonesbrosUK